**Adroddiad i:** Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Tachwedd 2012

**Aelod/ Swyddog Arweiniol:** Cyngh. Barbara Smith / Alan Smith

**Awdur yr Adroddiad:** Tony Ward

**Teitl:** Llythyr Asesu Gwelliannau Cyngor Sir Dinbych

---

## 1. Beth yw pwnc yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Llythyr Asesu Gwelliannau i Gyngor Sir Dinbych a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ar 17 Medi 2012. Mae'r llythyr wedi'i atodi i Atodiad I.

## 2. Beth yw'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am un o'r prif adroddiadau rheoleiddiol allanol a dderbynnir gan y cyngor bob blwyddyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn amlygu unrhyw faterion y mae'n teimlo y dylid eu codi gyda'r Pwyllgor Craffu Perfformiad pan fydd yr adroddiad yn cael ei drafod yno ar 29 Tachwedd 2012.

## 4. Manylion yr adroddiad

Asesu Gwelliannau yw prif fecanwaith y WAO i adrodd am ei asesiad o berfformiad y cyngor a'i ragolygon am welliannau. Cyhoeddwyd y Llythyr Asesu Gwelliannau diweddaraf ar 17 Medi 2012. Er nad oes unrhyw argymhellion ffurfiol yn y llythyr, mae gan yr Aelodau gyfle i drafod y llythyr er mwyn penderfynu a oes unrhyw agweddau arbennig o berfformiad sydd angen eu craffu ymhellach.

Disgwylir cyhoeddi'r Llythyr Asesu Gwelliannau nesaf gan y WAO cyn diwedd mis Tachwedd 2012. Dylid cyflwyno'r llythyr hwn i'r pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2013.

## 5. Sut mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Llythyr Gwelliannau Blynyddol yn rhoi asesiad o berfformiad y cyngor a hefyd o'i ragolygon am welliannau. Elfen allweddol o'r wybodaeth a ystyrir gan y WAO wrth ddrafftio'r llythyr yw perfformiad y cyngor o safbwynt cyflawni'r blaenoriaethau yn ei Gynllun Corfforaethol. Disgwylir i'r WAO asesu'n ffurfiol Adroddiad Perfformiad Blynyddol y cyngor a'i Gynllun Corfforaethol. Nid oedd un o'r dogfennau ar gael i'w hasesu cyn cyhoeddi'r Llythyr Asesu Gwelliannau hwn, gan i'r fersiynau drafft o'r

ddwy ddogfen gael eu trafod (a’u cymeradwyo) gan y Cyngor ar 9 Hydref 2012. Bydd y WAO felly’n cynnwys gwerthusiad o’r ddwy ddogfen yn ei Lythyr Asesu Gwelliannau diweddaraf sydd i’w gyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd 2012.

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau i unrhyw faes gwasanaeth arbennig.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Sgrinio Asesu Effaith Cydraddoldeb?**

Cynhaliodd y WAO nifer o gyfweliadau gyda swyddogion perthnasol ac Aelodau Etholedig cyn drafftio’r Llythyr Asesu Gwelliannau. Rhannwyd yr adroddiad drafft gyda’r cyngor a gofynnwyd am adborth cyn ei gyhoeddi.

Ni fu’n rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb o’r adroddiad hwn gan nad oes angen penderfyniad fydd yn effeithio ar staff na defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar Gynllun Corfforaethol y cyngor 2012-17. Bydd hwn yn cael ei ystyried yn Llythyr Asesu Gwelliannau diweddaraf y WAO sydd i’w gyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd 2012.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol arwyddocaol amlwg yn codi o’r adroddiad.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i leihau’r rhain?**

Nid yw’r adroddiad hwn yn achosi unrhyw risgiau newydd i’r cyngor.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae’r adroddiad hwn er gwybodaeth, yn hytrach na phenderfyniad.